# GWASANAETH CA3

## THEMA: CARIAD

## LLEFARU

Ar gyfer y gwasanaeth hwn bydd angen tua 6 llefarydd, ond gall yr union nifer ddibynnu ar faint o ddisgyblion sydd ar gael i gymryd rhan. Awgrym yn unig felly yw'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ei osod allan – gellir cynnwys mwy neu lai o lefarwyr, gan uno neu wahanu darnau o'r sgript.

## ELFEN GERDDOROL

Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol drefn wahanol o gynnwys deunydd cerddorol wrth ymgynnull mewn gwasanaeth neu gyfarfod boreol. Os yw'n arferol dewis emyn o blith taflen emynau'r ysgol, yna gellir dewis un ar thema **cariad/gofal am gyd-ddyn/daioni**. Fel arall gellir dewis chwarae neu berfformio elfen gerddorol addas yn ôl dewis yr athro. Mae awgrym pellach yn y sgript, os yw defnyddio dolen o'r rhyngrwyd yn bosibl yng nghyd-destun yr ymgynnull.

Llefarydd 1: Tybed sut byddech chi yn diffinio'r gair 'cariad', sef thema ein gwasanaeth ni heddiw? Mae cymaint o wahanol fathau o gariad i'w cael yn y byd. Mae cariad rhamantus yn un math, sef y serch sydd rhwng cariadon. Mae cariad brawdol yn un arall, sef cariad dwfn rhwng ffrindiau a chyd-ddyn. Hefyd, mae cariad tadol neu famol rhieni at eu plant. Yn ôl un diffiniad, cariad yw bod yn barod i adael i'r bobl ry'ch chi'n eu caru fod yn nhw eu hunain, heb unrhyw ddisgwyliad eu bod nhw'n eich bodloni chi. I bobl sydd â chred grefyddol, duw'r cread yw grym cariad yn y byd.

Llefarydd 2: Ysgrifennodd Dylan Thomas, y bardd enwog o Abertawe, ddrama radio enwog o'r enw 'Under Milk Wood', neu 'Dan y Wenallt'. Ynddi, mae un o'r cymeriadau'n gweddïo ar ddiwedd y dydd. Y Parch Eli Jenkins yw enw'r cymeriad, gweinidog bach cartrefol, sy'n siarad â Duw yn y weddi enwog hon fel petai e'n siarad â ffrind. Mae'n gofyn i Dduw gadw ei lygad cariadus dros bobl y pentref ar hyd y nos, a'u cadw nhw'n saff tan y bore.

Llefarydd 3: Mae'r Parch Eli Jenkins yn gwybod nad yw pobl pentref Llareggub yn llawn daioni i gyd, ond mae'n gweddïo y bydd Duw yn gweld ochr orau pob un. Yn y ddrama hon, dyna mae Dylan Thomas yn ei wneud hefyd, fel crëwr y cymeriadau. Mae e'n cyflwyno llond pentref o bobl i ni, yn dda a drwg, yn wŷr a gwragedd, cariadon a hen ffrindiau. Dyw e ddim yn eu beirniadu nhw am eu drygioni. Mae'n amlwg ei fod mor hoff ohonyn nhw er gwaethaf eu beiau i

gyd. Dyma ddarn o'r ddrama sy'n cyfleu gwendidau rhai o'r cymeriadau, ond sydd hefyd yn llawn hiwmor.

NODYN Mae angen i'r llefarwyr chwarae'r rhannau isod , neu gael grŵp bach ychwanegol o ddisgyblion.

LILI: (*gan edrych yn y drych*)
Edrych ar dy gro'n!
O, na, edrych di!
'Mbach o baent sy isie...
Feil sy isie!
O! 'Na bishyn!

Ble gest ti'r wên 'na Lil?
Minda dy fusnes, ferch.
'Sneb yn caru ti.
'Na beth wyt *ti'n* feddwl.

Pwy sy'n caru ti?
Sa i'n gweud
O, dere Lil.
'Wedi di ddim?
Folon marw...

MRS BEYNON: *(yn uchel o'r llofft*) Lili!

LILI BWT: *(Yn uchel)* Ie, misys...

MRS BEYNON: Ble ma' 'nhe i, ferch?

LILI: (*Yn dawel*) Ble chi'n feddwl? Ym mocs y gath?
(*Yn uchel*) Dod, misys...

LLAIS: Yn Nhŷ'r Ysgol gyferbyn mae Mr Puw yn cario te i Mrs Puw, ac yn sibrwd ar y stâr:

MR PUW: Dyma'ch arsenic, cariad,
A'ch bisgïen lladd chwyn.
'Wy wedi tagu y paracît.
Wedi poeri'n y jwge.
Wedi rhoi caws yn y tyle llygod.
Dyma'ch...
(*drws yn gwichian agor*)
...te neis, cariad.

MRS PUW: Gormod o siwgur.

MR PUW: Tastwch e gynta, cariad.

MRS PUW: Gormod o la'th 'te. Ody Mr. Jenkins wedi gweud ei bishyn?

MR PUW: Ody, cariad.

MRS PUW: Mae'n bryd codi 'te.

LLEFARYDD 4: Gadewch i ni wrando ar eiriau gweddi'r Parch Eli Jenkins, sy'n gofyn am fendith ar holl bobl y pentref, yn eu daioni a'u drygioni.
(Os yw'n bosib gellir chwarae'r fersiwn gorawl ganlynol ar youTube sy'n cynnig delweddau a geiriau, <http://www.youtube.com/watch?v=Gt-23idbKBg> (Saesneg) Neu gallai disgybl/ion cerddorol yr ysgol ganu'r pedwar pennill syml ar y dôn adnabyddus 'Troyte's Chant'.)

Wrth ddihuno gyda'r wawr
Yn ôl fy arfer, Arglwydd mawr,
Gofynnaf i ti roi dy hedd
I greaduriaid crud a bedd.

A chyda'r machlud yn ddi-ffael
Gofynnaf am dy fendith hael,
Cans Ti yn unig, Arglwydd mawr
A ŵyr yn siŵr pwy wêl y wawr.

Nid oes neb drwy'r Wenallt oll
Yn ôl dy farn yn llwyr ar goll,
Cans gwn yn siwr mai Tad wyt Ti
A wêl bob tro ein gorau ni.

Rho undydd eto, Arglwydd da,
A'th fendith hwyrol caniatâ!
Ac wrth yr haul sy'n mynd am sbel
Cawn ddweud nos da, heb ddweud ffarwél.

## MUNUD I FEDDWL

Llefarydd 1: Cariad sydd wrth wraidd cymdeithas a bywyd hapus. Gofynnwn am y gallu i garu ein cyd-ddyn ym mha le bynnag y mae, ac o ble bynnag mae'n dod. Mae ein byd yn llawn gwrthdaro o bob math - peth ohono yn agos i gartref, a pheth ar gyfandiroedd pell. Ceisiwn beidio bod yn rhan o gasineb y byd.

Gofynnwn am y ddawn i fod yn addfwyn at eraill ac am barodrwydd i faddau bai.

Mae calon sy’n llawn o gariad yn galon lân, yn llawn daioni. Nid yw cariad yn meddwl yn wael am bobol eraill ac yn eu beirniadu, nac yn gwneud bywyd yn anodd iddyn nhw. Mae calon dda’n golygu ein bod yn ein caru ni ein hunain hefyd, ac yn maddau ein beiau ni ein hunain. Does neb ohonom yn berffaith, ac ni allwn wneud dim ond ein gorau i fyw bywyd da. Bydded i bob un ohonon ni wneud lle i gariad ac nid casineb yn ein calonnau, holl ddyddiau ein bywyd.